OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 1332

# Rheoliadau'r Premiwm Cigydda (Cymru) 2001

## Rhan III

## Cofrestru lladd-dai

### Cymhwyso rheoliadau 13 i 19 ac 20 (pan fydd yn ymwneud â Rhan III)

**12.** Mae rheoliadau 13 i 19, ac (i'r graddau y mae'n ymwneud â hysbysiadau a gyflwynir o dan reoliad 15 neu 17) rheoliad 20, yn gymwys i ladd-dai yng Nghymru.

### Gwneud cais am gofrestru

**13.**—(1) Caiff gweithredydd lladd-dy wneud cais i'r Bwrdd am gofrestru lladd-dy i gigydda anifeiliaid premiwm heblaw lloi premiwm, neu loi premiwm, neu'r ddau.

(2) Rhaid i gais o dan baragraff (1)—

(a) bod yn ysgrifenedig;

(b) bod yn yr iaith Saesneg neu'r iaith Gymraeg:

(c) cael ei lofnodi gan y gweithredydd lladd-dy neu ar ei ran;

(ch) cynnwys enw, neu enw busnes, a chyfeiriad y gweithredydd lladd-dy;

(d) enwi'r lladd-dy y mae'r cais yn ymwneud ag ef;

(dd) nodi'r anifeiliaid premiwm y gwneir y cais am gofrestru ar eu cyfer;

(e) cynnwys ymrwymiad—

(i) os caiff y lladd-dy ei gofrestru, a chyhyd ag y caiff y lladd-dy ei gofrestru, i gigydda anifeiliaid premiwm heblaw lloi premiwm, y cydymffurfir â'r amodau a nodir yn Rhan 1 o'r Atodlen; a

(ii) os caiff y lladd-dy ei gofrestru a chyhyd ag y caiff lladd-dy ei gofrestru, i gigydda lloi premiwm, y cydymffurfir â'r amodau a nodir yn Rhannau I a II o'r Atodlen.

### Cofrestru lladd-dai

**14.** Os caiff cais sy'n cydymffurfio â rheoliad 13(2) ei gyflwyno o dan reoliad 13(1), rhaid i'r Bwrdd gofrestru'r lladd-dy a enwir ynddo i gigydda'r anifeiliaid premiwm a nodir yn unol â rheoliad 13(2)(dd) drwy nodi'r lladd-dy, ynghyd â nodyn o'r anifeiliaid premiwm a nodwyd felly, ar restr, y mae'n rhaid i'r Bwrdd ei chadw, o'r lladd-dai sydd wedi'u cofrestru fel hyn.

### Torri'r amodau cofrestru

**15.** Os nad yw'r Bwrdd wedi'i fodloni bod yr amodau a nodir yn Rhan I o'r Atodlen yn cael eu bodloni mewn lladd-dy cofrestredig, neu fod yr amodau a nodir yn Rhan II o'r Atodlen yn cael eu bodloni mewn lladd-dy sydd wedi'i gofrestru ar gyfer cigydda lloi premiwm, caiff gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i weithredydd y lladd-dy—

(a) yn datgan ei fod yn bwriadu dileu cofrestriad y lladd-dy am nad yw wedi'i fodloni bod yr amodau a nodir yn yr Atodlen yn cael eu bodloni yno;

(b) yn pennu'r amodau nad yw'r Bwrdd wedi'i fodloni mewn perthynas â hwy, y camau y mae'n ofynnol i weithredydd y lladd-dy eu cymryd er mwyn eu bodloni, ac amser rhesymol o ddwy wythnos o leiaf y mae'n rhaid i'r gweithredydd lladd-dy gymryd y camau hynny o'i fewn; ac

(c) yn datgan y caiff cofrestriad y lladd-dy ei ddileu os nad yw wedi'i fodloni pan ddaw'r amser rhesymol hwnnw i ben fod y camau angenrheidiol wedi'u cymryd.

**Dileu cofrestriad**

**16.** Yn unol â'r weithdrefn yn rheoliad 17, caiff y Bwrdd ddileu cofrestriad lladd-dy—

(a) os yw'r Bwrdd wedi cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig ar weithredydd y lladd-dy yn unol â rheoliad 15 a'i fod yn dal heb ei fodloni, pan ddaw'r amser rhesymol y cyfeirir ato yn rheoliad 15(b) i ben, fod yr amodau a bennir yn yr hysbysiad wedi'u bodloni; neu

(b) os yw gweithredydd y lladd-dy, neu unrhyw swyddog, gweithiwr cyflogedig, gwas neu asiant i weithredydd y lladd-dy wedi'i gollfarnu am dramgwydd mewn perthynas ag unrhyw gais.

**Y weithdrefn ar gyfer dileu**

**17.**—(1) Rhaid i'r Bwrdd ddileu cofrestriad lladd-dy drwy gyflwyno hysbysiad dileu yn unol â pharagraff (2) a dileu'r lladd-dy oddi ar y rhestr sy'n cael ei chadw gan y Bwrdd o dan reoliad 14.

(2) Rhaid i hysbysiad dileu o dan baragraff (1) gael ei gyflwyno i weithredydd y lladd-dy a rhaid iddo ddatgan—

(a) bod cofrestriad y lladd-dy ar gyfer cigydda anifeiliaid premiwm wedi'i ddileu, a

(b) na roddir unrhyw bremiwm cigydda am gigydda unrhyw anifail buchol a gaiff ei gigydda yn y lladd-dy oni bai ac hyd nes i'r lladd-dy gael ei gofrestru eto.

**Arddangos hysbysiad dileu**

**18.** Os yw cofrestriad lladd-dy wedi'i ddileu yn unol â rheoliad 16, rhaid i weithredydd y lladd-dy ganiatáu i berson awdurdodedig ddodi copi o'r hysbysiad dileu yno mewn man amlwg y mae'n hawdd i bob person sy'n dod ag anifeiliaid i'r lladd-dy ei weld a rhaid iddo ei gadw yn y fan honno mewn cyflwr clir a darllenadwy nes bod blwyddyn o ddyddiad y dileu wedi dod i ben neu nes i'r lladd-dy gael ei gofrestru eto, p'un bynnag sydd gyntaf.

**Cofrestru ar ôl dileu**

**19.**—(1) Os yw cofrestriad lladd-dy wedi'i ddileu yn unol â rheoliad 16, rhaid i'r Bwrdd beidio â'i gofrestru eto oni bai bod y Bwrdd wedi'i fodloni bod yr amodau a nodir yn Rhan I ac, os yw'r gweithredydd lladd-dy yn gwneud cais am gofrestru'r lladd-dy ar gyfer cigydda lloi premiwm, Rhan II o'r Atodlen yn cael eu bodloni yno.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (1) beth bynnag, os yw cofrestriad lladd-dy wedi'i ddileu yn unol â rheoliad 16(b) caiff y Bwrdd wrthod ei gofrestru eto nes bod unrhyw gyfnod, heb fod yn fwy na chwe mis ar ôl y dyddiad dileu, y mae'r Bwrdd yn credu ei fod yn rhesymol yn amgylchiadau'r achos yn dod i ben.